

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024.

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Cadw (y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg) ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024.

Jack Sargeant AS

Y GWEINIDOG DIWYLLIANT, SGILIAU A PHARTNERIAETH GYMDEITHASOL

01 Hydref 2024

RHAN 1

Disgrifiad

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud gwelliannau i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ganlyniadol i gychwyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023') a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2023. Mae Deddf 2023 yn atgyfnerthu ac yn ailddatgan deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol ac yn ymgorffori cyfraith achosion ac ymarfer cysylltiedig.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Mae'r rheoliadau hyn yn rhan o becyn o reoliadau i weithredu Deddf 2023.

Cefndir deddfwriaethol

3. Gwneir y rheoliadau hyn o dan adran 211(3) a (4) o Ddeddf 2023, sy'n caniatáu i reoliadau wneud darpariaethau canlyniadol a diwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf 2023.

4. Gan fod y rheoliadau hyn yn gwella deddfwriaeth sylfaenol, yn unol ag adran 209(5) o Ddeddf 2023, mae'r offeryn yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd o dan y weithdrefn gadarnhaol.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

5. Deddf 2023 yw'r Ddeddf gydgrynhoi gyntaf yn rhaglen bum mlynedd gychwynnol Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, [Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU](#). Mae'r darn hanesyddol hwn o ddeddfwriaeth yn darparu cyfraith gwbl ddwyieithog ar gyfer diogelu a rheoli ein hamgylchedd hanesyddol unigryw yn effeithiol fel y gall barhau i gyfrannu at lesiant Cymru a'i phobl.

6. Mae rhaglen hygyrchedd y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn cynnwys ymrwymiad i wneud yr is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu Deddf 2023.

7. Ni wneir unrhyw newid polisi. Mae Atodlen 13 i Ddeddf 2023 yn cynnwys diwygiadau sy'n angenrheidiol o ran canlyniadau cydgrynhoi deddfwriaeth yr amgylchedd hanesyddol yn y Ddeddf honno. Mae rhai yn gwneud darpariaeth ar gyfer enwi'r Ddeddf yn briodol mewn deddfwriaeth bresennol. Mae angen eraill er mwyn tynnu Cymru o ddeddfwriaeth yr amgylchedd hanesyddol a fydd yn parhau i fod mewn grym yn Lloegr, yn enwedig Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990").

8. Mae Rheoliad 3 yn diwygio Atodlen 1 o Ddeddf Harbyrau 1964 i ddiweddaru cyfeiriad at adran 3 o Ddeddf 2023.
9. Mae Rheoliad 4 yn hepgor darpariaeth nad yw'n berthnasol i Gymru.
10. Diwygir rhai o ddarpariaethau Deddf 1990 gan Atodlen 13 i HEWA a Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 ("LURA"), ac mae eu gweithrediad effeithiol yn dibynnu ar y drefn y cânt eu cychwyn. Mae rhannau o LURA wedi'u cychwyn ac wedi newid darpariaethau yn Neddf 1990 y mae rhannau o Atodlen 13 i Ddeddf 2023 yn gweithredu arnynt. Mae Rheoliadau 3 i 20 yn gwneud newidiadau i Atodlen 13 er mwyn ystyried y newidiadau a wnaed gan LURA fel bod Atodlen 13 yn parhau i weithio fel y bwriadwyd yn wreiddiol.
11. Mae Rheoliad 21 yn gwella LURA i bob pwrpas fel y bydd darpariaethau sy'n gorgyffwrdd yn gweithio ar ôl cychwyn Deddf 2023. [Mae paragraff 200 sydd wedi'i fewnosod yn sicrhau y gallant weithio heb fod angen unrhyw addasiad pellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol pan fydd adran 104 LURA yn cychwyn.]
12. Mae Rheoliad 22 yn ddarpariaeth arbed ar gyfer hysbysiadau diogelu adeiladau a ddaeth i rym cyn cychwyn adran 105(3) LURA.
13. Y risg o beidio â gwneud y Rheoliadau hyn yw na fydd Atodlen 13 i Ddeddf 2023 yn gweithredu'n effeithiol.

Ymgynghoriad

14. Nid oes unrhyw ymgynghori wedi'i gynnal ar y rheoliadau, gan eu bod yn adlewyrchu'r polisi presennol ac yn ailddatgan y gweithdrefnau presennol.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

15. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y rheoliadau hyn, gan fod y rheoliadau'n ailddatgan rheoliadau presennol. Nid yw'r rheoliadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.